OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3035 (Cy.283)

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*26 Tachwedd 2003*
Yn dod i rym - -	*30 Tachwedd 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(1) a 15(3) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2003 a daw i rym ar 30 Tachwedd 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru(**2**).

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1967 p.84. Amnewidiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29) adran 22(1). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77) adran 22(1), Atodlen 1, paragraff 38(3) a'i diwygio gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86) adran 9(1), Atodlen 2, paragraff 16(1) ac O.S. 1999/1820, Erthygl 4, Atodlen 2, paragraff 43(2)(b). *Gweler* adran 22(2) i gael y diffiniad o "the Ministers" at ddibenion adran 5 a 15(3); cafodd adran 22(2) ei diwygio gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981, adrannau 19(2)(d) a 45(b) ac (c) a chan O.S. 1999/1820, Erthygl 4, paragraff 43(12) o Atodlen 2. Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan Ddeddf 1967 i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru (a ddiffinir yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) fel ei fod i gynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea"); mewn perthynas â dyfroedd y tu hwnt i Gymru mae'r swyddogaethau hyn yn parhau i gael eu harfer gan y Gweinidogion. Mae erthygl 3(1) ac Atodlen 1 o Orchymyn Deddf yr Alban 1998 (Swyddogaethau Cyfamserol) 1999 (O.S. 1999/1592) yn darparu bod y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 5 a 15(3) o Ddeddf 1967 i'w harfer gan y Gweinidogion, yn gydamserol â Gweinidogion yr Alban, mewn perthynas â'r canlynol: cychod pysgota Prydeinig perthnasol o fewn parth yr Alban; a chychod pysgota'r Alban o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain ond y tu allan i barth yr Alban. Yn rhinwedd erthygl 2(1) o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Physgodfeydd) 2000 (O.S. 2000/1812) trosglwyddwyd unrhyw swyddogaethau a oedd yn weddill gan Ysgrifenyddion Gwladol Cymru a'r Alban o dan adrannau 5 a 15(3) o Ddeddf 1967 i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ac yn eu tro (ynghyd â swyddogaethau eraill) i'r Ysgrifennydd Gwladol gan O.S. 2002/794.

(**2**) Gan gynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea" (adran 155 (1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) ac yn unol ag erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 3 iddo ynghylch aberoedd yr Hafren a'r Ddyfrdwy.

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(**3**) neu sydd dan berchenogaeth lwyr personau sy'n gymwys i berchenogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno; ac

ystyr "pen y cwd" ("*codend*") yw'r rhan olaf un o rwyd, a luniwyd o un neu fwy o baneli yn cynnwys darnau o rwydwe y mae maint ei masgl yr un fath a'r darnau hynny wedi'u cysylltu â'i gilydd ar hyd eu hymylon yn echel hir y rhwyd gan gareiau.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn, rhaid mesur masgl rhwyd neu rwydwe yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 2108/1984 ar 23 Gorffennaf 1984 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer penderfynu maint masgl rhwydi pysgota(**4**) ac a ddiwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2550/1997(**5**)).

Gwahardd pysgota perdys heb dreillrwyd wahanu neu grid didoli

3. Gwaherddir cychod pysgota Prydeinig rhag cario na defnyddio rhwyd, y mae mesur ei masgl rhwng 16 a 31 milimetr oni bai fod yr amodau canlynol wedi'u bodloni —

(a) bod rhwydwe, y mae ei masgl yn mesur o leiaf ddwywaith mesur pen y cwd a dim mwy na 70 milimetr, wedi ei rhoi ar draws holl drawsdoriad y rhwyd yn y fath fodd —

(i) na all pysgod gyrraedd pen y cwd heb yn gyntaf fynd drwy'r rhwydwe; a

(ii) bod twll yn y rhwyd y mae'r holl bysgod nad ydynt ym mynd drwy'r rhwydwe yn gallu ffoi drwyddo;

(b) bod grid anhyblyg, nad yw'r gofod rhwng ei fariau yn fwy nag 20 milimetr wedi ei roi ar draws holl drawsdoriad y rhwyd yn y fath fodd —

(i) na all pysgod gyrraedd pen y cwd heb yn gyntaf fynd drwy'r grid; a

(ii) bod twll yn y rhwyd y mae'r holl bysgod nad ydynt ym mynd drwy'r grid yn gallu ffoi drwyddo;

(c) na chadwyd unrhyw bysgod ar fwrdd y cwch; neu

(ch) os oes unrhyw bysgod wedi'u cadw ar fwrdd y cwch, bod llai na 60% yn ôl pwysau byw cyfanswm yr haldiad a gadwyd yn cynnwys perdys cyffredin (*Crangon* spp.), perdys Aesop (*Pandalus montagui*) neu gyfuniad o'r ddau.

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig

4.—(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota Prydeinig y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda neu heb bersonau a neilltuwyd i gynorthwyo, a chaiff fynnu bod y cwch yn stopio a gwneud unrhyw beth arall a fyddai'n hwyluso mynd ar fwrdd y cwch.

(3) Caiff y swyddog fynnu presenoldeb y meistr ac unrhyw berson arall sydd ar y cwch a chaiff wneud unrhyw archwiliad neu ymholiad sy'n ymddangos iddo ef neu iddi hi yn angenrheidiol at y diben o orfodi'r Gorchymyn hwn, ac yn arbennig —

(a) caiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch hwnnw a chyfarpar y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a chaiff fynnu bod personau sydd ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos i'r swyddog yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwiliad; a

(**3**) 1995 p.21.
(**4**) OJ Rhif L194, 24.7.1984, t.22.
(**5**) OJ Rhif L349, 19.12.1997, t.1.